CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 14eg o Hydref 2024 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Miriam Webb, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Dylan Jarman, Robert D Jones, a Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans. Roedd ymddiheuriad gan Cyng Emrys Thompson.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed o Fedi** ar gynnig Cyng. Gwynedd Roberts a'I eilio gan Cyng Robert D Jones.

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

Adroddwyd ymateb Cyngor Gwynedd am y cloddiau yn gordyfu ar Stryd Llanegryn – a bod llythyr wedi mynd i'r perchnogion. Nodwyd fod llawer o waith wedi ei wneud, ond roedd angen atgoffa rhai perchnodion eto. Awgrymwyd gofyn i gynrychiolydd o'r Cyngor ddod lawr i weld y sefyllfa.

Yng nghyswllt gwneud llwybr ar y cae chwarae, nodwyd yr amcangyfrif gan Cyng Steve Lewis a oedd wedi ei ddosbarthu i bawb, a diolchwyd yn fawr i Steve. Roedd y deunyddiau yn £400, ac amcangyfrif dim mwy na £1000 am y cwbwl.  Awgrymwyd cael pyst ychydig mwy o faint. Ni fyddai modd cychwyn cyn mis Chwefror

b) **Rheilffordd Talyllyn/Safle Treftadaeth** – yng nghyswllt y prosiect wagen lechi, nodydd y Clerc gyfarfod gyda Elin Wiliam o Gyngor Gwynedd, a oedd wedi olynu Anna Lewis.  Nodwyd ddiweddariad am yr amcangyfrif y wagen lechi gan Liz Porrett, ond roedd angen ffigurau pendant. Penderfynwyd gwahodd Elin i'n cyfarfod nesaf, ond roedd angen gwybod yr amserlen y cais grant ayyb.

Tra yn trafod hyn, cyfeiriwyd at garreg fedd cyn ddoctor o Abergynolwyn  (Dr Rowlands fu yn weithgar adeg oedd y chwareli yn eu hanterth) a oedd wedi ei gladdu yn Tywyn – a bod y garreg/carreg goffa wedi torri. Gofynnwyd a oedd modd i'r Cyngor Cymuned helpu. Gwelwyd fod angen gwybod yn iawn beth oedd y sefyllfa. Byddai y Clerc yn rhoi hyn ar yr agenda tro nesaf.

c) **Coeden yn difrodi wal** – nid oedd diweddariad, ond nodwyd y byddai hyn ar y gweill yn fuan.

d) **Archwiliad y cae chwarae gan ROSPA** – nodwyd eto - yn dilyn yr Archwiliad Blynyddol roedd rhai materion angen sylw. Byddai rhaid trafod amcangyfrifon yn y cyfarfod nesaf.

e) **Ystyried amcangyfrifon i dorri coeden rhodedendron (a'i lladd) ym mynwent Y Fedw Abergynolwyn**. Adroddwyd am brisiau i law gan Arwyn Davies a Kevin Jones. Gan fod yna son am fwy o waith yno, oedd yn cynnwys ail-godi wal ac angen eglurhad am glirio y goeden, nodwyd y dylid ymweld a'r safle. Gofynnwyd a allai Cyng Emrys Thompson, Elwyn Evans a Gwynedd Roberts ymweld, ac adrodd erbyn y tro nesaf. Nodwyd fod angen copi o'r 'waste transfer notice' i'w gadw gyda phapurau y Cyngor rhag ofn bydd ymholiad.

5. **Materion Cynllunio**

Cadarnhwyd nad oedd unrhyw faterion ers y cyfarfod diwethaf.

6. **Materion Cyllid.**

a) Cyfrifon 2023-24 - nodwyd man ymholiadau i'w hateb

b) Roedd yr anfonebau canlynol i law, a chytunwyd ar gynnig Cyng Gwynedd Roberts a'i eilio gan Eleri Puw i'w talu;

**Anfoneb Richard Griffiths** am agor bedd i gladdu llwch ym mynwent Llanfihangel y Pennant 14.09.24 am £100.

**Cydnabyddiaeth y Clerc** am ail chwarter y flwyddyn (£400.010 a thaliad HMRC (£100)

**Arwyn Davies –** am dorri gwair mynent Llanfihangel y Pennant (toriad Medi) a Cae chwarae Abergynolwyn - £880

**HG Web Designs** – cynnal a chadw gwefan y Cyngor Cymuned - £250.

Yng nghyswllt anfoneb Un Llais Cymru am hyfforddiant 18.09.24 – nododd Cyng Miriam Webb nad oedd hi wedi gallu mynychu, er wedi derbyn papurau. Byddai y Clerc yn cysylltu efo Wendi Patience.

Nodwyd yr angen i ddiweddaru mandad y banc, ac y byddai rhaid i'r rhai sydd yn arwyddo gychwyn y broses.

7. **Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

Cafwyd adroddiad llawn gan Cyng Beth Lawton am ei gwaith yn yr ardal - ymysg y materion oedd y canlynol;

- Yr argymhelliad i roi cyfyngiad 30mya oddiamgylch Talyllyn, a bod hyn yn mynd i Bwyllgor Cynllunio
- Gwaith efo Ysbyty Tywyn, a'i bod wedi pwyso am gyfarfod efo'r Bwrdd Iechyd a bod hyn yn digwydd dydd Gwener nesa
- Gwaith efo Pwyllgor Craffu Tai – oedd yn gweld sut mae cymdeithasau Tai yn gweithio.
- Byddai yn cael diweddariad efo ochr ariannol Cyngor Gwynedd, a'r pryder am doriadau
- Cyfarfod i drafod y sustem bleidleisio STV

8. **Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Cyfeiriodd Cyng Elwyn Evans at 3 Pwyllgor Ardal a un Pwyllgor Polisi wedi bod ers iddo adrodd ddiwethaf.

Soniodd am gyflwyniad gan David Jones fel Prif Warden y Parc Cenedlaethol, a gwaith Rhys Gwyn – yn bennaf cyd-bwyso natur a thwristiaeth. Hefyd problemau sbwriel.

Soniod fod llywodraethiant Cynghorau Cymuned yn cael eu ystyried gan Bwyllgor y Senedd, ond roedd pryder nad oedd digon o drafod efo Un Llais Cymru.

Soniodd hefyd am Gynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru ar Ddydd Mercher 16eg Hydref . Hefyd soniodd am y bwriad i gau canolfannau Ambiwlans Awyr yn mynd i adolygiad barnwrol.

**9.Gohebiaeth.**

a) Nodwyd fod Nodyn Datblygu ymarfer 8 – Un Llais Cymru wedi ei dderbyn, a oedd yn cynnwys lincs defnyddiol. Byddai y Clerc yn ei ddanfon allan i bawb.

b) Adolygiad mannau pleidleisio o fewn Gwynedd – nodwyd fod yn bwysig nodi fod Abergynolwyn yn parhau i fod yn safle pleidleisio.

**c)** Nodwyd cyfarfod blynddol Mantell Gwynedd ar y 13eg o Tachwedd yn Portrmeirion.

**9. Unrhyw fater arall**

a) Roedd coed yn tyfu o’r wal yn Cwrt, sef o’r bont i lawr, ac angen tynnu sylw Sion Wilkes.

b) Roedd yna broblemau efo parcio yn Stryd Llanegryn, a chytunodd Cyng Miriam Webb ddanfon lluniau.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS LUN 11eg Tachwedd 2024 , 7.00y.h.**

**..........................................................................................................................**

LLANFIHANGEL Y PENNANT COMMUNITY COUNCIL

Minutes of a Council meeting held on Monday evening the 14th of October 2024 at 7.00pm in the Ganolfan, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Elwyn Evans, Miriam Webb, Gwynedd Roberts, Steve Lewis, Eleri Puw, Dylan Jarman, Robert D Jones, and Cllr Bethan Lawton (Gwynedd Council) and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Elwyn Evans. There was an apology from Cllr Emrys Thompson.

2. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on matter on the Agenda.

3. The minutes of the meeting held on the 9th of September were confirmed on the proposal of Cllr. Gwynedd Roberts and Seconded by Cllr Robert D Jones.

4. Matters arising

a) Highways/pathways issues.

Gwynedd Council's response to the hedges overgrowing on Llanegryn Street was reported - and that a letter had gone to the owners. It was noted that a lot of work had been done, but some owners still needed to be reminded. It was suggested to ask a representative from the Council to come down to see the situation.

In relation to making a path on the playing field, the estimate was noted by Cllr Steve Lewis which had been distributed to everyone, and many thanks were given to Steve. The materials were £400, and the estimate no more than £1000 for the whole. It was suggested to have slightly larger posts. It would not be possible to start before February

. b) Talyllyn Railway/Heritage Site - in relation to the slate wagon project, the Clerk noted a meeting with Elin Wiliam from Gwynedd Council, who had succeeded Anna Lewis. An update on the slate wagon estimate was noted by Liz Porrett, but concrete figures were needed. It was decided to invite Elin to our next meeting, but we needed to know the timetable of the grant application etc.

While discussing this, reference was made to the gravestone of a former doctor from Abergynolwyn (Dr Rowlands was active when the quarries were at their peak) who had been buried in Tywyn - and that the stone/memorial stone was broken. It was asked if the Community Council could help. It was seen that it was necessary to know exactly what the situation was. The Clerk would put this on the agenda next time.

c) A tree damaging a wall - there was no update, but it was noted that this would be planned soon.

d) Inspection of the playing field by ROSPA - it was noted again - following the Annual Inspection there were some issues that needed attention. Estimates would have to be discussed at the next meeting.

e) Consider estimates to cut a rhododendron tree (and kill it) in Y Fedw Abergynolwyn cemetery. Prices on hand were reported by Arwyn Davies and Kevin Jones. As there was talk of more work there, which included re-erecting a wall and needed an explanation about clearing the tree, it was noted that the site should be visited. It was asked if Cllr Emrys Thompson, Elwyn Evans and Gwynedd Roberts could visit, and report by next time. It was noted that a copy of the 'waste transfer notice' is required to be kept with the Council's papers in case there is an enquiry.

5. Planning Matters

It was confirmed that there were no issues since the last meeting.

6. Finance Matters.

a) Accounts 2023-24 - where queries were identified to be answered

b) The following invoices were received, and it was agreed upon the proposal of Cllr Gwynedd Roberts and seconded by Eleri Puw to pay them;

Richard Griffiths invoice for opening a grave to bury ashes in Llanfihangel y Pennant cemetery 14.09.24 for £100.

Clerk's remuneration for the second quarter of the year (£400.01) and HMRC payment (£100)

Arwyn Davies - for cutting grass they went to Llanfihangel y Pennant (September cut) and Abergynolwyn Playground - £880

HG Web Designs - Community Council website maintenance - £250.

In relation to Un Llais Cymru's invoice for training 18.09.24 - Cllr Miriam Webb noted that she had not been able to attend, although she had received papers. The Clerk would contact Wendi Patience.

It was noted the need to update the bank's mandate, and that those who sign would have to start the process.

7. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

A full report was given by Cllr Beth Lawton about her work in the area - among the issues were the following;

- The recommendation to put a 30mph restriction around Talyllyn, and that this goes to the Planning Committee
- Work with Ysbyty Tywyn, and that she has pressed for a meeting with the Health Board and that this takes place next Friday
- Work with the Housing Scrutiny Committee - which saw how Housing associations work.
- He would get an update on the financial side of Gwynedd Council, and the concern about cuts
- Meeting to discuss the STV voting system

8. Report of Cllr. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

Cllr Elwyn Evans referred to 3 Area Committees and one Policy Committee there had been since he last reported.

He mentioned a presentation by David Jones as Chief Warden of the National Park, and Rhys Gwyn's work - mainly balancing nature and tourism. Also litter problems.

It was mentioned that the governance of Community Councils was being considered by the Senedd Committee, but there was concern that there was not enough discussion with Un Llais Cymru.

He also mentioned the Annual Welsh One Voice Conference on Wednesday 16th October. He also mentioned the intention to close Air Ambulance centers going to a judicial review.

9. Correspondence.

a) It was noted that the Development Note for exercise 8 – One Voice of Wales had been received, which contained useful links. The Clerk would send it out to everyone.

b) Review of polling places within Gwynedd - it was noted that it is important to note that Abergynolwyn continues to be a polling place.

c) The annual meeting of Mantell Gwynedd on the 13th of November in Portmeirion was noted.

9. Any other matter

a) There were trees growing from the wall in Cwrt, that is from the bridge down, and Sion Wilkes' attention needed to be drawn.

b) There were problems with parking in Llanegryn Street, and Cllr Miriam Webb agreed to send pictures.

DATE OF NEXT MEETING; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN MONDAY 11th November 2024, 7.00 p.m.